| PENNAWD RHEOLI RHEOLI | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | CMRA | | |
| **Awdur** | Andy Philips, Rheolwr Derbyniadau | | |
| **Awdurdodwyd gan:** | Helena Eaton, Cyfarwyddwr Marchnata a Derbyniadau | | |
| **Gweithredu gan:** | Andy Philips, Rheolwr Derbyniadau | | |
| **Cyfeirnod Polisi Cyfeirnod:** | POCMRA2122006 | | |
| **Polisi a Ddisodlwyd:** | Polisi Derbyn Cyd-destunol | | |
| **Rhif Fersiwn:** | 1 | **Pwyllgor Cymeradwyo:** | VCB |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | 21.03.22 | **Rhif y cofnod:** | 21.87.05 |
| **Statws:** | Cymeradwywyd | **Dyddiad Gweithredu:** | Mawrth 2022 |
| **Cyfnod y gymeradwyaeth:** | 3 blynedd | **Dyddiad Adolygu:** | Mawrth 2025 |
| Rwyf wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. | | | x |
| Rwyf wedi ystyried effaith y Polisi/Strategaeth/Gweithdrefn (dileer fel y bo'n briodol) ar y gymraeg a'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn y Brifysgol. | | | x |

**<u>Polisi Derbyniadau Cyd-destunol PGW</u>**

Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn ymroi i ehangu mynediad i'r brifysgol i'r holl bobl hynny sydd â'r potensial i lwyddo, waeth beth yw eu cefndir neu amgylchiadau personol. Mae'r Brifysgol, o ganlyniad, yn gosod blaenoriaeth ar ddefnyddio arferion derbyniadau cyd-destunol wrth benderfynu ar geisiadau i astudio â ni. Bydd y polisi hwn yn amlinellu pryd a sut yr ystyrir ffactorau cyd-destunol wrth wneud penderfyniad ynghylch derbyn, a'r effeithiau dilynol ar gynigion a wneir pan fo ffactorau o'r fath yn bresennol.

<u>Beth yw derbyniadau 'cyd-destunol'?</u>

Mae derbyniadau cyd-destunol yn cyfeirio at ddefnyddio amgylchiadau a dangosyddion penodol y gallai ymgeisydd eu cyflwyno yn ychwanegol i'w cymwysterau, a'r teilwrio sy'n digwydd wedyn o ran y penderfyniad derbyn, sydd yn rhoi ystyriaeth i'r amgylchiadau a'r dangosyddion yma.

<u>Pa ffactorau ydym ni'n eu hystyried?</u>

Yn draddodiadol, mae penderfyniadau derbyniadau cyd-destunol yn seiliedig ar un neu ragor o ddangosyddion allweddol ar y ffurflen gais UCAS. Er enghraifft:

- A yw ymgeisydd yn byw mewn ardal sydd, yn draddodiadol, â dilyniant isel i'r brifysgol
- A yw'r ymgeisydd yn byw mewn ardal o amddifadiad economaidd-gymdeithasol
- A fu'r ymgeisydd erioed mewn gofal
- A yw ysgol neu goleg yr ymgeisydd yn disgyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol o ran safonau TGAU neu Safon Uwch (Lefel A)
- A yw'r ymgeisydd yn hŷn (dros 21 mlwydd oed)

Mae ein prosesau derbyn yn ystyried y ffactorau hyn, ond gwneir ein penderfyniadau cyd-destunol hefyd ar sail gwybodaeth sydd ar gael ar y cais ynghylch ffactorau lliniarol nad ydynt yn ffitio'r categorïau yma.

- Beth oedd amgylchiadau'r ymgeisydd pan fuont yn astudio diwethaf? Sut allai'r rhain fod wedi effeithio'u perfformiad mewn asesiadau?
- Beth yw amgylchiadau'r ymgeisydd erbyn hyn? A allai'r rhain gael effaith negyddol ar beth maent yn ei wneud ar hyn o bryd?
- Fel myfyriwr hŷn, pa ffactorau anacademaidd y gallwn eu hystyried er mwyn cryfhau eu cais? Sut mae profiadau bywyd wedi eu paratoi ar gyfer astudiaeth bellach?
- A yw eu geirda yn nodi y dylem ystyried ffactor neu ffactorau allanol wrth asesu'r cais?

<u>Pam fod y ffactorau yma'n bwysig?</u>

Fel Prifysgol gyda llawer o fyfyrwyr o gefndiroedd Ehangu Mynediad, rydym yn cydnabod nad oes gan bob ymgeisydd fynediad i'r un cyfleoedd dysgu a chefnogaeth ag sydd gan eraill. Credwn y dylid cyfarch hyn fel rhan o'r broses dderbyn.

<u>Sut ydym ni'n defnyddio'r wybodaeth?</u>

Pan fo ymgeisydd wedi eu heffeithio gan un neu ragor o'r ffactorau uchod, fe allwn ni ddewis gwneud y canlynol:

- Gwneud cynnig is
- Cynnig cyfweliad ble gynt ni fyddai hyn wedi cael ei ystyried.
- Ychwanegu cwrs paratoi (i'w hastudio gyda ni fel arfer) at amodau'r cynnig
- Cynnig mwy o gymorth yn ystod y broses ymgeisio drwy ein tîm Ehangu Mynediad
- Bod yn fwy hyblyg gyda'n penderfyniad wrth Gadarnhau
-

<u>Gwneud cynigion is</u>

Mae rhai prifysgolion yn gwneud 'cynigion cyd-destunol' i'r rhai hynny sy'n boddhau meini prawf derbyniadau cyd-destunol. Yn draddodiadol mae'r cynigion hyn 1 neu 2 radd yn is na'r cynnig safonol. Nid ydym yn gwneud y math yma o gynnig fel mater o arfer. Yn hytrach, bydd ein cynnig yn ffitio i'n graddfa symudol o bwyntiau Tariff UCAS ar gyfer y cwrs hwnnw hyd yn oed os yw'r ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf cyd-destunol. Fodd bynnag, gall cynnig fod yn is nag un y mae ymgeisydd arall yn ei dderbyn, os ydym wedi adnabod ffactorau lliniarol yn y cais sy'n cyfiawnhau'r cynnig is yma.

<u>Cynnig cyfweliad</u>

Ar gyfer cyrsiau mwy cystadleuol, mae’n bosib y caiff ymgeisydd eu gwrthod cyn y cyfweliad os nad ydynt yn boddhau meini prawf safonol y rhestr fer. Fodd bynnag, pan fo ymgeisydd yn arddangos un neu ragor o’r dangosyddion cyd-destunol neu ffactorau lliniarol, mae’n bosib y cynigir cyfweliad yn hytrach na gwrthod y cais.

Cynnwys cwrs paratoi fel un o amodau’r cynnig

Rydym yn cynnig sawl cwrs byr a allai ffurfio rhan o gynnigyr ymgeisydd yn ddibynnol ar eu hamgylchiadau personol. Er enghraifft, mae’r Dysgwr Hyderus yn gwrs byr poblogaidd y gellir ei ddefnyddio i bontio i PGW ar gyfer yr ymgeiswyr hynny fu allan o fyd addysg am beth amser.

Mwy o gymorth gan Ehangu Mynediad

Mae adnabod ffactorau lliniarol mewn cais yn rhoi cyfle inni gynnig cymorth i’r ymgeisydd gan ein Cydlynydd Ehangu Mynediad. Gall hyn for ar ffurf mwy o gyfathrebu yn ystod y broses ymgeisio, trefnu trafodaeth un-i-un rhwng yr ymgeisydd a’r Tîm Derbyn Myfyrwyr/Tiwtor Derbyn Myfyrwyr, neu wasanaethau eraill a allai gynorthwyo ymgeisydd sydd angen cymorth ychwanegol i lywio drwy’r broses ymgeisio.

Bod yn fwy hyblyg wrth Gadarnhau’r Cynnig

Dyma’r pwynt mwyaf allweddol yn y cylch pan fydd cynigion yn cael eu gostwng ar sail ffactorau cyd-destunol. Byddwn yn ystyried sefyllfa ymgeisydd yn ystod eu cyfnodau asesu ac unrhyw ffactorau cyd-destunol sy’n bresennol yn eu ffurflen cais ar y pwynt yma. Byddwn yna’n lleihau gofynion y cynnig i ymgeisydd pan fo’r canlyniadau yn hysbys a chyfansymiau eu pwyntiau tariff UCAS ar gael.

Derbyniadau cyd-destunol yn ymarferol yn PGW

Yn ymarferol, mae modd defnyddio unrhyw un, neu bob o’r arferion uchod yn ystod cylch dderbyn myfyrwyr ar gyfer ymgeiswyr unigol sydd eu hangen. Bydd y Tîm Derbyn Myfyrwyr yn cynghori ar amgylchiadau unigol fel y bo’n briodol, a dylid annog ymgeiswyr i gysylltu â’r tîm os ydynt yn dymuno gwybod sut gallai eu hamgylchiadau unigol effeithio ar eu cynnig gennym ni.